Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adran 5 Atodiad: Dosbarthiadau Ceisiadau Cynllunio – Trothwyon a Meini Prawf

Llawlyfr
Rheoli
Datblygu

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51664, ISBN digidol 978-1-83715-686-3

## Atodiad Adran 5

# Dosbarthiadau Ceisiadau Cynllunio - Trothwyon a Meini Prawf

## Cynnwys


| Adran | | Is adran |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | |
| 2 | Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | |
| | | Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| 3 | Datblygiad Mawr | |
| | | Datblygiad Mawr o Bwys |
| 4 | Datblygiad Lleol | |
| | | Datblygiad Deiliad Tŷ |


## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae Adran 5 y Llawlyfr Rheoli Datblygu yn nodi bod y ffordd mae ceisiadau cynllunio yn cael eu prosesu a'u craffu yn dibynnu ar unrhyw fuddiannau ac effeithiau posibl a allai fod ganddynt sydd ag arwyddocâd cenedlaethol, mawr neu leol. Mae'r atodiad hwn yn nodi'r trothwyon a'r meini prawf ar gyfer y gwahanol gategorïau o geisiadau cynllunio.

## 2.0 Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

2.1 Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yw'r mathau mwyaf a mwyaf cymhleth o ddatblygiadau a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau arnynt. Mae datblygiadau a ganiateir gan Lywodraeth y DU fel Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r categori hwn.

2.2 Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig (Cymru) 2016 yn nodi'r meini prawf ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol at ddibenion adran 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac felly mae'n ddatblygiad Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

2.3 Mae rheoliadau 4 i 14 yn nodi’r meini prawf ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiad:

(a) gorsafoedd cynhyrchu
(b) cyfleusterau storio nwy tanddaearol
(c) cyfleusterau ar gyfer nwy hylif naturiol
(ch) cyfleusterau derbyn nwy
(d) meysydd awyr; rheilffyrdd
(dd) cyfnewidfeydd cludo nwyddau ar reilffyrdd
(e) argaeau a chronfeydd
(f) trosglwyddo adnoddau dŵr
(ff) gweithfeydd trin dŵr gwastraff
(g) cyfleusterau gwastraff peryglus

2.4 Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodol a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2016. Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i’r meini prawf penodedig ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i gynnwys yr holl orsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir hynny sydd â chapasiti cynhyrchu o dros 50MW, yn ogystal â’r holl brosiectau cynhyrchu ynni rhwng 10MW a 50MW.

**Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol**

2.5 Mae Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn fwy na phrosiectau Datblygu o Arwyddocâd Cenedlaethol. Nid ydynt wedi’u datganoli i Weinidogion Cymru a Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am eu cydsynio. Fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae datblygiad sy’n cael ei gydsynio drwy’r dull hwn yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Mae gwybodaeth am Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ar gael yn https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/.

## 3.0 Datblygiad Mawr

3.1 Mae datblygiad mawr yn cael ei ddiffinio yn erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012:

ystyr "datblygiad mawr" ("major development") yw datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol—
(a) ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o weithfeydd mwynau;
(b) datblygiad gwastraff;
(c) darparu tai annedd—
(i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor; neu
(ii) pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c)(i);
(ch) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor; neu
(d) datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy;

**Datblygiad Mawr Pwysig**

3.2 Mae'r categori 'datblygiad mawr' yn berthnasol i'r 'datblygiadau mawr' hynny sy'n destun ffi uwch ar gyfer y gwasanaeth statudol cyn cyflwyno cais. Cyflwynwyd ffioedd ar gyfer y gwasanaeth gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2016 a oedd yn atodlen 4 newydd i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015.

3.3 Mae datblygiad mawr yn ddatblygiad o fwy na 24 anheddiad, ardal safle o fwy nac 0.99 hectar, neu 1999 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros.

## 4.0 Datblygiad Lleol

4.1 Mae datblygiad lleol yn cynnwys pob math arall o ddatblygiad nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol neu ddatblygiad mawr. Weithiau mae datblygiad 'deiliaid tŷ' yn is-gategori sydd hefyd yn cael ei drin yn wahanol.

**Datblygiad Deiliad Tŷ**

4.2 Mae datblygiad deiliad tŷ yn cael ei ddiffinio yn erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 fel:
Ystyr 'cais deiliad tŷ' (householder application) yw cais am—

(a) caniatâd cynllunio i ehangu tŷ annedd, neu ddatblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd o'r fath; neu
(b) newid defnydd i ymestyn cwrtil tŷ annedd, at unrhyw ddiben sy'n ategol i fwynhau'r tŷ annedd ond nid yw'n cynnwys—
    (i) unrhyw gais arall i newid defnydd
    (ii) cais i godi tŷ annedd, neu
    (iii) cais i newid nifer y tai annedd mewn adeilad

4.3 Mae erthygl 2 yn diffinio tŷ annedd fel:

Nid yw tŷ annedd yn cynnwys adeilad sy'n cynnwys un neu fwy o fflatiau, neu fflat wedi'i gynnwys mewn adeilad o'r fath.